AS 21  Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**PAPUR I'R PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

**GWASANAETHAU MABWYSIADU YNG NGHYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Diben y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i ymchwiliad dilynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i wasanaethau mabwysiadu.

2. Yn dilyn yr ymchwiliad blaenorol, rydym wedi cymryd camau pendant i bennu ffocws strategol gwell ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru a rhoi cymorth ariannol i agweddau allweddol ar y diwygiadau hyn.

3. Gan fabwysiadu dull cydgynhyrchu, buom yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i gadarnhau o dan y gyfraith drwy gyhoeddi Cyfarwyddiadau yn dilyn newidiadau a wnaethom i ddeddfwriaeth sylfaenol drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rydym hefyd wedi gwneud y canlynol

- sefydlu Cofrestr Fabwysiadu Cymru, gyda threfniadau cyfatebol i gofrestrau tair gwlad arall y DU;
- rhoi fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru ar waith;
- helpu i ddatblygu dull mwy strategol o ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu drwy arian grant wedi'i dargedu ar gyfer datblygu'r gwasanaeth hwn a gwasanaethau allweddol eraill.

4. Pan ddaeth Cymdeithas Mabwysiadu a Meithrin Prydain (BAAF) i ben yn ystod yr haf aethom ati'n gyflym i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i gael eu darparu'n ddi-dor i ddefnyddwyr gwasanaethau, tra'n manteisio ar y cyfle i ddatblygu trefniadau newydd pwrpasol i Gymru a fydd yn gwella gwasanaethau. Mae'r trefniadau newydd ar gyfer Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn benodol, sydd bellach yn cael ei gweinyddu gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, eisoes yn sicrhau manteision drwy wella prosesau rheoli gwybodaeth a chael

mwy o effaith strategol, yn ogystal â darparu llwyfan i dreialu opsiynau ar gyfer gwella gwasanaethau.

5. Yn fwy cyffredinol, rydym yn mynd ati i lunio fframwaith polisi strategol er mwyn lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system gofal, pan fo'n ddiogel gwneud hynny. Os bydd angen iddynt dderbyn gofal, ein nod yw sicrhau lleoliadau o ansawdd uchel sy'n rhoi sefydlogrwydd i'r plant ac yn sicrhau eu bod yn cael eu magu fel rhan o deulu cariadus. Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi rôl mabwysiadu fel math llwyddiannus iawn o sefydlogrwydd i'r plant a'r bobl ifanc hynny yr ystyrir mai dyma'r opsiwn priodol ar eu cyfer.

**Trefniadau llywodraethu ac arwain**

6. Mae'r strwythur a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn seiliedig ar y “model gweithredol” a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Grŵp Arbenigol o randdeiliaid ac a ddatblygwyd ymhellach mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Cynghori a gynullwyd i sefydlu'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol. Y trefniadau hyn a gydgynhyrchwyd a fu'n sail i'r Cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2015.

7. Gan gydnabod mai awdurdodau lleol sydd â'r cyfrifoldeb statudol am ddarparu gwasanaethau mabwysiadu, mae'r strwythur llywodraethu yn seiliedig ar fodel lleol / rhanbarthol / cenedlaethol arloesol sy'n nodi llinellau atebolrwydd clir tra'n herio ac yn darparu llwyfan ar gyfer cydweithio effeithiol.

8. Y Bwrdd Llywodraethu sy'n gyfrifol yn y pen draw am berfformiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sy'n dod ag arweinwyr gwleidyddol ar gyfer lefelau rhanbarthol a chenedlaethol y gwasanaethau at ei gilydd, ochr yn ochr â chynrychiolydd o'r sefydliadau trydydd sector a chadeirydd annibynnol y Grŵp Ymgynghori, i ddarparu her ychwanegol.

9. Mae'r Grŵp Cynghori yn dod ag amrywiaeth eang o ddeiliaid at ei gilydd, gan gynnwys rhai o'r gwasanaethau hynny sy'n chwarae rôl allweddol wrth ategu gwasanaethau cymdeithasol yn y maes hwn – yn benodol, cynrychiolydd o'r

sector addysg a thri chynrychiolydd o'r sector iechyd, gydag un ohonynt yn dod o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae hefyd yn ofynnol iddo roi sylw i farn y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu.

10. Mae'r ddau grŵp hyn yn cynnig fforymau ar gyfer sgyrsiau pwerus am berfformiad pob agwedd ar y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, yn genedlaethol. Yn rhanbarthol, mae'n ofynnol i'r mentrau cydweithredol sicrhau bod cytundebau partneriaeth a threfniadau rheoli ar waith, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG, ac adrannau addysg lleol, gan gynnwys cynrychiolaeth o'r gwasanaethau hyn ar bwyllgor rheoli'r fenter gydweithredol. Mae hyn yn eu galluogi i gydweithio'n effeithiol a herio ei gilydd ar lefel ranbarthol yn ogystal ag yn genedlaethol.

11. Mae'r Cyfarwyddiadau yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad cynnydd blynyddol gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin bob blwyddyn ac adroddiad interim ar 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Ers sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, rwyf wedi defnyddio'r gofyniad hwn fel sail i gyfarfodydd cynnydd chwe misol rheolaidd â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethu a Chadeirydd y Grŵp Cynghori. Rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i drafod data perfformiad a materion cysylltiedig yn fanwl, gan gynnwys unrhyw rwystrau i wella perfformiad a sut y gellid eu dileu.

12. Rwy'n ymwybodol bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng perfformiad rhanbarthau mewn sawl maes allweddol, ac y bydd yn cymryd peth amser i fynd i'r afael â phob un o'r materion perthnasol. Fodd bynnag, rwy'n hyderus ein bod wedi dechrau'n dda, fel y dengys effaith gadarnhaol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol mewn llawer o'r dangosyddion a thargedau allweddol yn ystod ei flwyddyn gyntaf ac i mewn i'w ail flwyddyn. Ar sail tystiolaeth yr adroddiadau a gyflwynwyd imi a'r trafodaethau rwyf wedi'u cynnal, credaf fod ein huchelgais i sicrhau newid gwirioneddol yn cael ei rannu gan arweinwyr y gwasanaeth a bod awydd o hyd i gydweithio a herio ein gilydd ymhellach er mwyn gwneud y cynnydd sydd ei angen yn gyflym.

**Cymorth ôl-fabwysiadu**

13. Nid ydym yn diystyru'r heriau y gall teuluoedd mabwysiadol eu hwynebu. Bydd angen cymorth (amlasiantaethol o bosibl) ar rai, ond nid pob un, ar ôl i orchymyn mabwysiadu gael ei wneud. Mae ymchwil y gwnaethom ei chomisiynu gan Brifysgol Caerdydd i faes cymorth mabwysiadu, a hefyd gan Brifysgol Bryste i faes tarfu ar fabwysiadu, yn cadarnhau, pan fo angen cymorth, fod angen iddo fod yn amserol, yn hygyrch, yn briodol, yn seiliedig ar wybodaeth, yn dosturiol ac yn broffesiynol. Rydym yn cydnabod bod angen gwella cymorth ôl-fabwysiadu yng Nghymru ymhellach ac mae hwn yn faes rydym yn canolbwyntio arno.

14. Er mwyn helpu'r gwasanaeth mabwysiadu i fynd i'r afael â'r mater hwn rydym wedi rhoi'r symiau dilynol o arian wedi'i dargedu:

- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – £65,000 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 i ddatblygu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, gan gynnwys llunio model cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau hyn (sydd felly yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau a hawliau). Bydd £15,000 arall yn helpu i ddatblygu gwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wrth gyfathrebu â phlant a mabwysiadwyr, gan gynnwys tudalennau gwasanaethau cymorth mabwysiadu ar ei wefan.
- After Adoption ac Adoption UK ar y cyd - £564,477 dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer *Adoption Support Wales – getting it right for every child*. Portffolio o weithgareddau yw hwn a gyflawnir ar y cyd gan After Adoption, Adoption UK, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid er mwyn atgyfnerthu a llywio cymorth mabwysiadu ledled Cymru a sicrhau mwy o degwch o ran y modd y caiff ei ddarparu.
- Cymdeithas Plant Dewi Sant - £342,300 dros gyfnod o dair blynedd i ganolbwyntio ar a) recriwtio darpar fabwysiadwyr plant sydd wedi'u cyfeirio at Gofrestr Fabwysiadu Cymru, sy'n 4 oed a throsodd, sy'n rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd a/neu sydd ag anghenion iechyd cymhleth, a b) rhaglenni cymorth wedi'u targedu i ddiwallu anghenion a bodloni gofynion y mabwysiadwyr hynny.

15. Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol bod y Gronfa Cymorth Mabwysiadu yn Lloegr yn gweithredu ar raddfa wahanol ac mewn ffordd wahanol. Mae gwerthusiad diweddar o'r cynllun hwnnw yn amlygu rhai llwyddiannau diamau. Un o'r pwyntiau dysgu allweddol wrth ddatblygu ein gwasanaethau cymorth ein hunain yw cofio bod angen symud i ffwrdd oddi wrth drefniadau prynu yn ôl y galw ac arferion comisiynu lleol, byrdymor o ran y gwasanaethau hyn a chwilio am ffyrdd y gallwn nodi synergeddau, tyfu a chymhwyso arfer a sicrhau bod yr arian sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf posibl.

16. Nid ydym yn bwriadu gofyn i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ymgymryd â rôl i asesu anghenion o ran cymorth ôl-fabwysiadu ar hyn o bryd, er y byddem yn barod i drafod y syniad hwn ymhellach â phartneriaid. Rydym yn cydnabod bod tîm canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn fach iawn ac y byddai angen ystyried y mater hwn fel rhan o unrhyw ystyriaeth a roddid i'r awgrym hwn.

17. O fis Ebrill 2016, os ymddengys y gall fod angen gofal a chymorth ar blentyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol asesu a oes gan y plentyn anghenion a beth yw'r anghenion hynny o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

18. Mae'r Fframwaith presennol ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff plant a theuluoedd eu hasesu'n briodol. Mae egwyddorion a thri maes (anghenion datblygiadol plant, gallu rhianta a ffactorau amgylcheddol a theuluol) y canllawiau hyn wedi'i hymgorffori yn y cod ymarfer ar asesiadau i ategu'r Ddeddf ac yn cynnwys canllawiau ar feysydd megis datblygiad emosiynol ac ymddygiadol, sefydlogrwydd ac ymlyniadau.

19. Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig sicrhau bod y sawl sy'n cynnal asesiadau, yn rhoi cymorth ac yn adolygu'r ddarpariaeth honno yn ymwybodol o fabwysiadu.

Mae sicrhau bod gweithdrefnau clir ar waith er mwyn i unigolion herio penderfyniadau a chodi materion y maent yn anfodlon arnynt yr un mor bwysig.

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)**

20. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r pryderon sydd wedi'u mynegi ynghylch y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed eu darparu yn gyffredinol ers peth amser. Dyna pam y lluniodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gwella gwasanaethau ei hun, a arweiniodd at ddatblygu rhaglen *Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc* a arweinir gan y GIG, a lansiwyd ym mis Chwefror 2015. Mae'r fenter hon yn ceisio sicrhau bod CAMHS yn gweithio gyda'i bartneriaid ar draws awdurdodau lleol, y sector addysg, y trydydd sector ac mewn mannau eraill er mwyn sicrhau bod y person ifanc sy'n dioddef salwch emosiynol a salwch meddwl yn cael yr ymyriad mwyaf priodol, o'r ffynhonnell fwyaf priodol ac mewn modd amserol yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Nodwyd sawl maes â blaenoriaeth ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu manylebau gwasanaethau a modelau cymorth sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer plant sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu.

21. Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn drwy fuddsoddi £7.6 miliwn ychwanegol mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gyhoeddwyd yn 2015. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o tua 18% yng ngwariant blynyddol y GIG ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Bydd yr arian yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau newydd gael eu datblygu ac i weithlu proffesiynol gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed gael ei gynyddu'n sylweddol, gan gynnwys ehangu darpariaeth therapïau seicolegol fel dewis amgen i feddyginiaeth. Mae enghreifftiau yn cynnwys therapïau sy'n mynd i'r afael ag anhwylder ymlyniad a phroblemau eraill sy'n effeithio ar blant wedi'u mabwysiadu a phlant sy'n derbyn gofal.

**Addysg**

22. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu rhai plant wedi'u mabwysiadu ym maes addysg. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio fel corff i fynd i'r afael â'r mater hwn, ar draws y portffolio addysg a'r portffolio gwasanaethau cymdeithasol. Buom hefyd yn gweithio gydag Adoption UK a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol er mwyn ceisio deall yn well sut y gellir cefnogi teuluoedd mabwysiadol mewn ysgolion.

23. Rydym wedi ymestyn telerau ac amodau'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnwys cymorth i blant wedi'u mabwysiadu. Bydd y trefniadau newydd yn galluogi'r consortia addysg rhanbarthol a phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni mabwysiadol a phlant wedi'u mabwysiadu, i ddatblygu ymyriadau a gaiff effaith fuddiol ar bob plentyn. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i blant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal a'r rhai a fabwysiadwyd ar ôl bod mewn gofal gael mwy o fudd o'r trefniadau newydd hyn.

24. Fel rhan o werthusiad a gynhelir yn y flwyddyn olaf rydym yn disgwyl i'r consortia weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a theuluoedd er mwyn deall yr effaith y mae'r grant wedi'i gael ar y dysgwyr y bwriedir iddo eu cefnogi.

25. Fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o faterion mabwysiadu, rydym wedi cynhyrchu fideo i ysgolion. Nid yw rhieni bob amser yn rhannu statws mabwysiadu ag ysgolion eu plant a mater o ddewis unigol yw hyn wrth gwrs. Pa fo'n hysbys, gellir rhoi sylw i fater hyfforddiant pwrpasol ar faterion penodol yn lleol, ar lefel clwstwr neu'n rhanbarthol. Gall yr hyfforddiant hwn gynnwys rheoli'r ystafell ddosbarth mewn modd cadarnhaol ac ymwybyddiaeth o broblemau ymlyniad ac iechyd meddwl posibl. Gall yr arian sydd wedi'i neilltuo ar gyfer bwrsariaethau hefyd gael ei dargedu i ddiwallu anghenion penodol grwpiau neu unigolion yn ôl yr angen.

26. Mae Llywodraeth Cymru ac Adoption UK wrthi'n cydweithio i ddatblygu llyfryn electronig, dwyieithog newydd ar wella cyflawniad plant wedi'u mabwysiadu yn yr ysgol.

**Cofnodi profiadau bywyd**

27. Rydym yn cydnabod bod ymyriadau cofnodi profiadau bywyd o ansawdd uchel o'r pwys pennaf i blant yn y system gofal. Mae'n helpu plant sy'n agored i niwed i ddeall eu gorffennol ac yn eu paratoi ar gyfer eu dyfodol. Ar gyfer plant wedi'u mabwysiadu nad ydynt, o bosibl, mewn cysylltiad mwyach â'u teulu biolegol, mae'r gwaith a wneir gyda hwy, a'u llyfr neu flwch o brofiadau bywyd, yn hollbwysig i'w helpu i wneud synnwyr o'u bywyd cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

28. Mae darparu ymyriadau cofnodi profiadau bywyd ar gyfer plant yng Nghymru yn destun pryder cyffredin. Wrth drafod ag Adoption UK, nododd rhieni mabwysiadol fod hyn yn broblem, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol mewn digwyddiadau ar gyfer staff yr oedd y Gwasanaeth Mabwysiadau Cenedlaethol yn bresennol ynddynt yn ystod 2014-15. Gwyddom, o'i wneud yn dda, y gall fod yn ffordd effeithiol o leihau'r potensial ar gyfer tarfu ar leoliad.

29. O ffigurau a gafwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, canran y plant y darparwyd deunyddiau cofnodi profiadau bywyd iddynt cyn eu hail adolygiad mabwysiadu oedd:

- 23% ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2015
- 60% ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn 2015-16
- 38% ar gyfer yr adolygiad canol blwyddyn 2015-16.

Mae'r ffigurau hyn gryn dipyn yn is na'r targed, sef 75%.

30. Mae cyflawni gwaith cofnodi profiadau bywyd trylwyr a baratowyd yn sensitif yn anodd, yn enwedig pan fydd aelodau o staff yn wynebu blaenoriaethau croes. Fodd bynnag, mae angen gwella ac mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi nodi bod y mater hwn yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae'n un o'r materion a drafodwyd mewn cyfarfodydd cynnydd rhwng Gweinidogion ac arweinwyr y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn un rwyf am barhau i'w fonitro'n ofalus.